## **PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 27ain Mehefin 2001 am 10.00a.m. yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, G.A. Clague, D.W. Davies, M.Ll. Davies, P. Douglas, S. Drew (dirprwy ar ran J.R. Hughes), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, G. Jones, M.M. Jones (dirprwy ar ran C.H. Williams), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, A.E. Roberts (dirprwy ar ran N. Hugh-Jones), F. Shaw, J.A. Smith, D.A. Thomas (sylwedydd), S. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (Y Gogledd),Pen Swyddog Cynllunio (Y De) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

### **PERSONOL**

**Y cyn Gynghorydd J. Griffiths**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist yn ddiweddar ynglyn â marwolaeth cyn-Gynghorydd Cyngor Bwrdeistref Rhuddlan a Sir Clwyd J Griffiths. Safodd yr Aelodau mewn tawelwch parchus er cof am y cyn-Gynghorydd Griffiths.

**Aelod o'r Ymerodraeth Brydeinig**

Cyflwynwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd R.W. Hughes (Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio) a oedd wedi derbyn yr MBE yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines.

### **227. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod, fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheolau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Cynllunio | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2001/0484/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Grwp Mynediad Sir Ddinbych a'r Pennaeth Priffyrdd).<br>Adeiladu estyniad, trosi hen gyfleusterau cyhoeddus yn 2 uned swyddfa a throsi rhan o farchnad dan do yn 2 stiwdio/siop arddangos yn Neuadd y Dref Cyngor Sir Ddinbych, Sgwâr y Goron, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amod newydd 7 a nodiadau newydd i'r ymgeisydd rhifau 1 a 2:-<br>7.Dylid cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r llwybr cyffiniol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cwblhau cyn dechrau defnyddio'r datblygiad.<br>RHESWM - er budd diogelwch ar y ffordd. |

1. Tynnir eich sylw at sylwadau Grwp Mynediad Sir Ddinbych, sy'n gofyn am ddarparu mannau parcio i bobl anabl, defnyddio llawr gwrthlithro gyda handlenni hawdd eu defnyddio yn y toiled, larymau tân strôb a mynedfeydd sydd yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i bobl mewn cadair olwyn.
2.Cynghorir yr ymgeisydd i wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd ar wahân i'r Pennaeth Priffyrdd a Chludiant i ymgymryd ag unrhyw newidiadau i'r brifffordd bresennol.
Dylid dwyn sylw'r ymgeisydd at y dogfennau canlynol amgaeëdig:-
(i) Nodiadau Atodol Priffyrdd Rhifau. 1, 3, 4, 5 a 10.
(ii) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 - Ffurflen Rhan N

| | |
|---|---|
| 02/2001/0461/PF | Estyniad i dy annedd presennol yng Ngharreg Aur, Parc Brynhyfryd, Rhos Street, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2:-<br>2.Er gwaethaf yr hawliau datblygiad a ganiateir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ni chaniateir unrhyw ffenestri, balwstradau neu falconiau ychwanegol ar lefel y llawr cyntaf ar unrhyw adeg heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. |
| 03/2001/0241/PF | Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio maes parcio wedi ei adleoli ar gyfer tafarn yn cynnwys tirweddu caled/meddal yn y Sun Trevor Hotel, Ffordd Llangollen, Llangollen.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2:-<br>2.Er gwaethaf y manylion a ddangosir ar Ddarlun. 0103/02A, ni ddylid cychwyn ar unrhyw ddatblygiad nes bydd manylion y dec pren ac arwyneb y maes parcio, a chynllun tirweddu ar gyfer y safle wedi eu cymeradwyo, yn cynnwys niferoedd a rhywogaethau planhigion. Dylid gweithredu'r manylion a gytunir yn llwyr cyn dechrau defnyddio'r dec a'r maes parcio, a dylid plannu coed neu blanhigion yn lle rhai sydd, o fewn cyfnod o 5 mlynedd o'u plannu, yn cael eu tynnu ymaith neu sy'n dioddef o afiechyd, o faint a rhywogaeth debyg.<br>Dymunodd y Cynghorydd A J Tobin gael nodi ei fod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd. |
| 03/2001/0317/PF | Adeiladu bloc dosbarth newydd yn Ysgol Dinas Bran, Ffordd Dinbren, Llangollen. |
| 03/2001/0347/TC | Lleihau corun a thorri canghennau is 3 sycamorwydden o fewn Ardal gadwraeth yn 19 Church Street, Llangollen. |
| 05/2001/0374/PF | Adeiladu bynglo sengl a modurdy a newid mynedfa bresennol i gerbydau yng nghefn Cottage, Carrog, Corwen. |
| 14/2000/1061/PO | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd a Babtie).<br>Datblygu 0.295 erw o dir i ddibenion preswyl ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc septig newydd (adnewyddu caniatâd amlinell a roddwyd eisoes dan gôd rhif 14/1004/97/PO) ar dir yn cyffinio Pen y Bryn, Bontuchel, Rhuthun. |
| 15/2001/0369/PF | (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth F.M. Hill, yr ymgeisydd, Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl yn gofyn am ymweliad safle, Cymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch).<br>Trosi adeiladau allanol i ffurfio uned llety gwyliau gyferbyn â Camddwr Cottage, Llanarmonyniâl, Yr Wyddgrug.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>3.Dylid ond defnyddio'r adeilad a gymeradwyir trwy hyn fel llety gwyliau ac ni ddylid ei ddefnyddio fel ty annedd ar wahân a dylid cadw |

cofrestr deiliadaeth bob amser, a dylai fod ar gael i'w archwilio gan swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o wneud cais.
RHESWM - ystyrir bod yr adeilad yn rhy fach i'w ddefnyddio i ddibenion ar wahân i wyliau a chaniatáu monitro gan swyddogion yr Awdurdod.
Nodyn i'r ymgeisydd - tynnir eich sylw at y llythyr sydd ynghlwm oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n delio gyda'r perygl o lifogydd, ac fe'ch cynghorir chi i gysylltu gyda'r Asiantaeth cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad i esbonio pethau a'r angen am ragofalon mewn cysylltiad gyda'r cynllun.
Dymunodd y Cynghorydd S Drew gael nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

15/2001/0394/PR

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch).
Manylion ty annedd gweithiwr amaethyddol a gafodd ganiatâd cynllunio amlinell dan Gôd Rhif. 15/2000/1046/PO ar dir yn cyffinio Rhiw Iâl Farm, Back Road, Llanarmonyniâl, Yr Wyddgrug.
YN AMODOL ar ddileu amod rhif 1 newid amodau newydd rhif 3 a 4, amodau newydd 8, 9 a 10 a nodyn newydd rhif 1 at yr ymgeisydd:-
4 (3 nawr) Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes bydd manylion llawn y ffos a modd croesi'r nant wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac ni ddylai neb fyw yn y ty annedd nes bydd y fynedfa a'r groesfan wedi eu hadeiladu yn unol â'r manylion a gymeradwyir.
5 (4 nawr) Er gwaethaf manylion y dreif a gyflwynwyd, ni ddylai llwybr/llinell y dreif dresmasu ar ehangiad canghennau'r goeden dderw ger y fynedfa a dylid cadw'r gwrych presennol ger y lôn oni chytunir yn ysgrifenedig fel arall gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
8.Ni chaniateir i unrhyw waith gychwyn ar wyneb allanol y ty annedd nes bydd y math o garreg a rendr a morter a fwriedir eu defnyddio wedi eu cymeradwyo yn ffurfiol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a dylid gosod paneli sampl ar y safle i'w harchwilio gan yr Awdurdod.
9.Dylid cladio to'r ty annedd mewn llechen mwynau naturiol.
10.Dylai holl gwteri a nwyddau dwr glaw fod yn ddu bob amser.
RHESYMAU DROS 8, 9 A 10 - Er budd mwynderau gweledol a chan fod y safle o fewn AHNE Bryniau Clwyd.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch atgoffir yn barchus bod y dystysgrif hon yn gysylltiedig gyda chymeradwyaeth manylion ty annedd yn ffurfio pwnc caniatâd cynllunio amlinell 15/2000/1046/PO a bod y datblygiad yn parhau i fod yn destun y caniatâd hwnnw.

16/2001/0366/PF

(Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi mater cynllunio nad yw eisoes wedi ei drafod yn yr adroddiad).
(Ar ôl ystyried manylion pellach a dderbyniwyd).
Ty annedd newydd yn lle un presennol yn Hillside, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

43/2001/0095/PR

(Ar ôl ystyried 13 llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd, J.P. a C.M. Pearson, 42 Berwyn Crescent, Prestatyn, Mrs. Hannaby, 44 Berwyn Crescent, Y Cynghorydd N. Hugh-Jones, A. Austin, 170 Grosvenor Road, Mr. a Mrs. Holmes 247 Victoria Road, Mr. a Mrs. Owen, 234 Victoria Road, Mr. B. Rawlins a Miss H. Shard, 10 Berwyn Crescent, A. Leigh Griffiths, 20 Berwyn Crescent, Mrs. F.L. Chesworth, 28 Berwyn Crescent, Shelagh a Geoff Hodgson, 4 Berwyn Crescent, Cymdeithas Tenantiaid a Thâl Cymunedol Prestatyn a P. Walker, 30 Berwyn Crescent).

| | |
|---|---|
| | Manylion 230 ty annedd, ffyrdd mynediad, tirweddu a chynllunio man agored cyhoeddus yn unol ag Amodau rhif 1, 5, 8, 12, 13 ac 16 caniatâd cynllunio amlinell cyf. 43/2000/250/PO yng nghyn safle Tower Beach, Victoria Road, Prestatyn. |
| 43/2001/0438/PF | (Ar ôl ystyried naw llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn ac wyth llythyr gan drigolion lleol).<br>Adeiladu estyniadau i gynnwys ffurfio llwr ychwanegol yn 67 The Avenue Prestatyn. |
| 44/2001/0110/PF | (Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno).<br>Newid defnydd tir gwag i'w ddefnyddio fel parc carafanau sefydlog yn Llain 2 Cyn Riverside Camp, Marsh Road, Rhuddlan, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar gysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd parthed lled mynedfa i droed y dorlan cyn cyflwyno hysbysiad penderfynu. |
| 45/2001/0300/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr oddi wrth y Pensaer Cadwraeth).<br>Adeiladu estyniad to goleddf i lawr cyntaf a dihangfa dân newydd yng nghefn 17 Water Street, Y Rhyl. |
| 45/2001/0443/AD | Arddangos un arwydd hysbysebu goleuedig ar bolyn 2.3 medr ym Mharc Difyrion Y Rhyl Amusement Park, 104 Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl. |
| 45/2001/0444/AD | Arddangos 1 arwydd ochr ddwbl goleuedig yn sefyll ar ei ben ei hun yn Ocean Beach Cafe, Wellington Road, Y Rhyl. |
| 45/2001/0445/AD | Arddangos uned hysbysebu wedi ei oleuo yn fewnol ar bolyn 2.3 medr yn Safle Marchnad Ocean Beach, Wellington Road, Y Rhyl. |
| 45/2001/0456/PF | Newid defnydd o siop i gyfleusterau cymunedol ar gyfer cymdeithas trigolion yn 33 Rhydwen Drive, Y Rhyl |
| 45/2001/0457/PF | Newid defnydd annedd llawr gwaelod yn gyfleusterau cymunedol ar gyfer cymdeithas trigolion yn 7 Maes Bryn Melyd Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>Os gwelwch yn dda, sicrhewch bod lle ar gyfer parcio i bobl anabl ar gyfer y deiliad cyffiniol, Mr. Hollis, 6 Maes Bryn Melyd, fel a nodwyd yn ein gohebiaeth flaenorol. |
| 45/2001/0476/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Mrs. J.E. Shaw, 34-35 Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl a Mrs. V. Bell, 29 Crugan Avenue, Bae Cinmel).<br>Newid rhan o bwll i ffurfio ardal atyniadau plant, codi swyddfa docyn-nau, ciosg lluniaeth, adeilad storio a gwaith cysylltiedig yn y Llyn Cychod, Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl. |
| 45/2001/0496/PF | Newid defnydd o siop Dosbarth A1 yn gaffi-bar Dosbarth A3 yn 32 Sussex Street, Y Rhyl<br>YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>Fe'ch cynghorir bod y caniatâd cynllunio hwn yn delio gyda'r newid defnydd yn unig a bydd unrhyw newid i olwg allanol yr adeilad angen caniatâd cynllunio ar wahân cyn gwneud gwaith o'r fath. |
| 45/2001/0498/PO | Adnewyddu cais cyf: 45/767/98/PO yn cynnwys adeiladu 2 dy annedd (amlinell) ar dir yn 18-20 Bedford Street, Y Rhyl. |
| 46/2001/0446/PF | (Ar ôl ystyried newid paragraff 14 (mae mynediad yn dderbyniol) a llythyrau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy; J.M. Draper, Pennaeth Ysgol Babyddol Santes Gwenffrewi; J G Wren, Pentre |

Efail, The Roe; Mrs. H.K. Clarke, Bodhaelog, The Roe).
Adeiladu 22 ty sengl ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr ar gae yn cyffinio Keens Road a chyn safle'r Gwaith Nwy, Heol Esgob, Llanelwy.
YN AMODOL ar amodau newydd. 10 a 12 a nodyn i'r ymgeisydd:-
10.Cyn cychwyn ar y datblygiad, dylid adeiladu panel sampl ar y safle yn dangos y garreg, morter a deunydd pwyntio a fwriedir eu defnyddio ar y muriau blaen, a dylai'r datblygiad ond fynd rhagddo yn unol â sampl o'r fath a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; a bod y garreg, morter a deunydd pwyntio a ddefnyddir yn cydymffurfio gyda'r panel sampl a gymeradwywyd.
12.Cyn cychwyn ar y datblygiad, dylid cyflwyno cynllun ar gyfer tawelu traffig ar Heol Esgob rhwng y gyffordd gyda The Roe a'r safle e hun, ynghyd â ffyrdd mewnol y stâd i a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid gweithredu'r cynllun tawelu traffig yn llawn cyn i neb fyw yn y ty annedd olaf ar y datblygiad.
RHESWM - er budd diogelwch ar y ffordd.
Nodyn i'r Ymgeisydd: Cysylltwch gyda Phennaeth yr ysgol gynradd gerllaw er mwyn sicrhau bod y traffig adeiladu yn osgoi amser cychwyn a gorffen ysgol er mwyn lleihau tagfeydd a pheryglon posibl i holl ddefnyddwyr y briffordd.

47/2001/0145/PF

Trosi a newid adeiladau allanol i ffurfio 2 dy annedd (unedau 1 a 3) yn Summer Hill Farm, Tremeirchion, Llanelwy.
YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
Rhaid i'r ymgeisydd wneud profion mandylledd pridd yn unol â'r trefniadau yn y Ddeddf Adnoddau Dwr 1991 er mwyn penderfynu ar addasrwydd yr isbridd a'r tir sydd ei angen i ffurfio ffos gerrig. Os bydd profion o’r fath yn dangos bod y pridd yn anaddas i waredu carthffrwd yn effeithiol, dylai'r ymgeisydd gysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i drafod dull amgen derbyniol o drin/gwaredu carthffosiaeth.

47/2001/0310/PF

Gosod twr un polyn 20 medr, antena, caban offer a chompownd ar Fachwen Farm, Waen, Llanelwy.
YN AMODOL ar amod diwygiedig.2:-
2.Dylai gorffeniad allanol y twr un polyn, antena, caban offer a ffens y compownd fod yn wyrdd tywyll mat BS12B27.
Pleidleisiodd y Cynghorydd S Drew yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

47/2001/0477/PR

(Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau ychwanegol yn codi materion cynllunio nad ydynt eisoes wedi eu trafod yn yr adroddiad erbyn 5ed Gorffennaf 2001).
Manylion ty annedd dau lawr ar wahân a modurdy ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau yn unol ag Amod Rhif 1 ar ganiatâd cynllunio cyf 47/2000/0298/PO ar dir yn cyffinio 1 Dyffryn Teg, Holywell Road, Rhuallt, Llanelwy.
YN AMODOL ar amod ychwanegol rhif 5 a nodiadau newydd i'r ymgeisydd
5. Cyn cychwyn ar y datblygiad, dylid cyflwyno manylion dyluniad ac adeiladwaith y fynedfa i gerbydau i a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid adeiladu'r fynedfa yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn i neb fyw yn y ty annedd a ganiateir trwy hyn.
RHESWM - er budd diogelwch y briffordd.
Nodiadau i'r ymgeisydd:-
Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffordd Atodol sydd ynghlwm, rhifau 1, 2, 4, 5 a 10.
Tynnir eich sylw at y manylion safonol sydd ynghlwm ar gyfer mynedfa i gerbydau ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.
Tynnir eich sylw i'r nodiadau sydd ynghlwm ar geisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan gerbydau dros lwybr troed/ymyl ffordd dan Adran

184 Deddf Priffyrdd 1980.

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 15/2001/0229/PF | (Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater).<br>(Ar ôl ystyried chwe llythyr ychwanegol oddi wrth B. Barton, Cyngor Cymuned Llanarmon, Cymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch, Mr. A. Roberts, Crud y Gwynt, Eryrys, Mr. Boyett, e-bost gan B. Barton i'r Adran Cefn Gwlad).<br>Ffurfio cynllun ffyrdd mewnol, maes parcio, colofnau golau, cyfleus-terau adloniant, gosod tanc septig newydd a chynnydd yn y nifer o garafanau sefydlog o 10 - 18 (rhannol ôl-weithredol) ar Faes Carafa-nau Eryrys, Bryn Awelon, Eryrys, Yr Wyddgrug.<br>RHESWM - Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod y cynnydd arfaethedig yn y nifer o garafanau sefydlog ar y safle mewn Ardal Tirwedd Eithriadol ac Ardal Tirwedd Arbennig o 10 i 18 yn mynd yn groes i Bolisi C11 y Cynllun Lleol a Pholisi T4 y Cynllun Lleol, cyfiawn-had ac esboniad yr hwn sy'n ceisio cyfyngu estyniad i ardal safle a/neu nifer lleiniau i 10%. Ystyrir y byddai cynnydd ar y raddfa a gynigir yn niweidio cymeriad a golwg yr Ardal Tirwedd Eithriadol ac Ardal Tirwedd Arbennig, y byddai'n cael effaith niweidiol ar fwynderau deiliaid eiddo preswyl gerllaw, ac ni ystyrir bod y cynigion ar gyfer cynllun, uwchraddiad a gwella safon y safle yn ddigonol i gyfiawnhau rhoddi caniatâd, gan fod y datblygiad yn debygol o greu cynsail gan ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthod cynigion tebyg yn y dyfodol yn yr ardal. |
| 43/2001/1153/PC | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth y Cynghorydd N. Hugh-Jones).<br>Cadw ffrynt siop newydd (cais ôl-weithredol) yn 79 Stryd Fawr, Prestatyn.<br>RHESWM - Cynllun Datblygiad Unedol |
| 43/2001/1154/AD | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth y Cynghorydd N. Hugh-Jones).<br>Cadw dau arwydd ffasgia goleuedig (cais ôl-weithredol) yn 79 Stryd Fawr, Prestatyn<br>RHESWM - ystyrir bod cadw'r arwyddion ffasgia yn annerbyniol oherwydd eu dyluniad, maint a deunydd ac ati. |

*(b) cyfeirio'r penderfyniad canlynol gan y Pwyllgor i roddi caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r ceisiadau canlynol gan Aelodau'r Cyngor i'r Cyngor llawn yn unol â Chofnod Rhif 5 15fed Chwefror 1996:-*

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 11/2001/0290/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Grwp Mynediad Sir Ddinbych).<br>Trosi adeilad allanol yn dri annedd a thanciau septig newydd ym Maes Tyddyn Isa, Clawddnewydd, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>Fe'ch cynghorir o'r angen i gydymffurfio lle mae angen gyda Rhan M y Rheolau Adeiladu, o ran y ddarpariaeth ar gyfer mynediad i bersonau anabl. |
| 13/2001/0523/PF | Adeiladu estyniad i fodurdy yn Nyffryn Coediog, Pool Park, Rhuthun. |

*(c) er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, caniatáu'r ceisiadau canlynol am y rhesymau a*

*nodwyd:-*

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 09/2001/0296/PF | Trosi adeilad allanol yn dy annedd a gosod tanc septig newydd yn Ty Draw Farm, Mold Road, Bodfari, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amodau newydd 1, 2, 3, 4, 5, 6 a 7 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>1.Amod safonol 5 mlynedd<br>2.Ni chaniateir cychwyn ar unrhyw ddatblygiad nes bydd cofnod ffoto-graffig llawn wedi ei wneud o'r adeilad presennol a chopïau o'r ffoto-graffau wedi eu hadneuo gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>3.Ni ddylid lleoli unrhyw ran o'r tanc septig na'r ffos gerrig o fewn 10 medr o unrhyw ffos, cwrs dwr neu ddraen tir.<br>4.Dylid adeiladu holl ddarnau o furiau allanol a ailadeiledir neu a atgyweirir gan ddefnyddio carreg naturiol ar hap a morter i gyfateb y garreg a'r morter ar yr adeilad presennol oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a dylid toi mewn llechen mwynau naturiol.<br>5.Dylid adeiladu holl fframiau ffenestri a drysau mewn pren meddal.<br>6.Amod safonol 15 (E) - manylion tirweddu.<br>7.Amod safonol 15 (F) - gweithredu cynllun tirweddu<br>RHESYMAU-<br>1.Safonol<br>2.I sicrhau bod cofnod addas o'r arddull bensaernïol a chyflwr yr adeilad presennol.<br>3.I sicrhau dull draenio boddhaol.<br>4.Er budd mwynderau gweledol.<br>5.Er budd mwynderau gweledol.<br>6.Er budd mwynderau gweledol<br>7.Er budd mwynderau gweledol.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir bod y caniatâd a roddir ar gyfer trosi'r adeilad a bod angen ymgymryd â'r cynllun yn unol â'r manylion sy'n ffurfio'r cais; byddai gwaith dymchwel sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddangosir yn annilysu'r caniatâd.<br>Cymerwyd y penderfyniad SY'N GROES I ARGYMHELLION Y SWYDDOGION, am y rhesymau canlynol:-<br>Amgylchiadau personol yr ymgeiswyr<br>Ni ystyrir bod y cais yn mynd yn groes i Bolisi |
| 19/2000/1087/PF | Trosi sied wartheg yn dy annedd ym Mhenisarwaen, Llandyrnog, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amodau newydd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>1.Dylid dechrau ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn cyn diwedd pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.<br>2.N ddylid gosod unrhyw ran o'r tanc septig o fewn 10 medr i unrhyw ffos, cwrs dwr neu ddraen tir.<br>3.Dylid adeiladu unrhyw ddarnau o furiau allanol a ailadeiledir o'r un deunydd â'r adeilad presennol,a dylid toi gyda llechen mwynau naturiol.<br>4. Dylid adeiladu holl fframiau ffenestri a drysau o bren meddal.<br><br>5.Ni ddylid cychwyn ar y datblygiad nes cyflwynwyd i a chymeradwy-wyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ysgrifenedig, gynllun manwl o dirweddu caled a meddal ar gyfer y safle a dylai'r cynllun gynnwys manylion:<br>(a) holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y tir ar hyn o bryd, manylion unrhyw rai i'w cadw a mesurau i wneud hynny tra'r aiff y datblygiad rhagddo;<br>(b) coed, gwrychoedd, prysgwydd neu lystyfiant arfaethedig gan |

gynnwys cadarnhad o rywogaeth, nifer a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;
(c)deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio ar y dreif, llwybrau a mannau caled eraill;
(d) gwaith cloddio arfaethedig, gan gynnwys graddio a thwmpathu'r tir a newidiadau mewn lefelau, cyfliniau terfynol a pherthynas y twmpathu presennol gyda'r tir a'r llystyfiant o gwmpas
(e)lleoliad, dyluniad, deunyddiau a mathau arfaethedig o driniaeth ffiniau
6.Dylid ymgymryd â'r holl waith plannu, hadu, ffensio, murio neu driniaeth arall ym manylion cymeradwy'r tirweddu yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl byw yn y ty annedd a dylid plannu coed a phlanhigion newydd o'r un maint a rhywogaeth yn lle unrhyw rai sy'n marw neu'n cael eu symud ymaith neu a gaiff eu niweidio gan afiechyd o fewn 5 mlynedd i'r datblygiad.
RHESYMAU -
1.cydymffurfio gyda darpariaethau Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
2. sicrhau dull draenio boddhaol
3.er budd mwynderau gweledol
4.er budd mwynderau gweledol
5.sicrhau er budd mwynderau gweledol safon dderbyniol dirweddu foddhaol mewn cysylltiad â'r datblygiad.
6.sicrhau safon foddhaol o ddatblygiad, er budd mwynderau gweledol.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir mai caniatâd i drosi'r adeilad yw'r caniatâd a roddir a bod yn rhaid i'r cynllun gydymffurfio gyda'r manylion sy'n ffurfio'r cais; bydd unrhyw waith dymchwel neu ailadeiladu sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddangosir yn annilysu'r caniatâd.
Cymerir y penderfyniad SY'N GROES I ARGYMHELLION y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:-
Dim materion diogelwch priffordd (dim damweiniau wedi eu cofnodi)
Defnydd amaethyddol blaenorol bellach wedi dod i ben. Byddai'r lleihad mewn traffig fferm yn gwneud iawn am unrhyw gynnydd yn y llif traffig o ganlyniad i'r datblygiad hwn.

(ch) *gohirio'r ceisiadau canlynol er mwyn galluogi i'r aelodau ymgymryd ag ymweliadau safle am y rhesymau a nodwyd:-*

| <u>Rhif Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 02/2001/0499/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Fisher Wilson, Hanover St., Llundain (ar ran Mr. a Mrs. Wilson yn Hafryn) a Mr. G. Humphreys).<br>Adeilad ty annedd a newid mynedfa i gerbydau ar dir yn cyffinio Hafryn, Greenfield Road, Rhuthun. |
| 15/2001/0230/PF | (Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater).<br>(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth Mr. A. Roberts, Crud y Gwynt, Eryrys, Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl - yn gofyn am ymweliad safle a Chymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch).<br>Gosod carafán i fyw ynddi gan reolwr safle/warden (ôlweithredol) ym Mharc Carafanau Eryrys, Bryn Awelon, Eryrys, Yr Wyddgrug. |
| 15/2001/0231/PS | (Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater).<br>(Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth Mr. A. Roberts, Cymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch, Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl a P. Boyett, Tyn yr Union, Pant Du Road, Eryrys.)<br>Amrywio amod 3 a bennwyd ar benderfyniad apêl gorfodi rhif |

| | |
|---|---|
| | P.429/8910, a gyflwynwyd ar 15fed Mawrth 1970 yn cyfyngu deiliadaeth 10 carafán i gyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref i ganiatáu cyfnod deiliadaeth 10.5 mis rhwng 1 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn i 15fed Ionawr yn y flwyddyn ganlynol ym Mharc Carafanau Eryrys, Bryn Awelon, Eryrys, Yr Wyddgrug. |
| 28/2001/0427PF | Adeiladu ty gwydr yn 9 Bryntirion, Henllan, Dinbych. |

(d) *gohiriwyd y cais canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 09/2001/0015/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth yr ymgeiswyr).<br>Estyniad i dy annedd yng Nglan Clwyd Isa, Waen, Bodfari, Dinbych.<br>RHESWM - i esbonio'n union yr hyn a gynigir. |

**228. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymweliadau safle yn codi o Eitem rhif 1 ar y rhaglen i'w cynnal ar ddydd Mawrth 3 Gorffennaf 2001 a hysbysu o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar ddydd Mawrth 3ydd Gorffennaf 2001.*

**229. MATER GORFODI**

ENF/466/00/N - 79 Stryd Fawr, Prestatyn
Ffrynt siop heb awdurdod a gosod dau arwydd ffasgia gyda golau mewnol heb awdurdod

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol:-*

*(i)* *cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau bod y ffrynt siop heb awdurdod yn cael ei symud ymaith;*

*(ii)* *cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu bersonau i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiad Gorfodi neu Hysbysiad arall o'r fath neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda gofynion hysbysiadau o'r fath, a*

*(iii)* *cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio gan gynnwys cyflwyno Hysbysiad Atal os tybir bod angen hynny, i sicrhau bod y ddau arwydd ffasgia heb awdurdod yn cael eu tynnu ymaith.*

**230. FFERMYDD GWYNT ARFAETHEDIG AR Y MÔR**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio er gwybodaeth i'r Aelodau yn eu hysbysu o safleoedd posibl ar gyfer y ffermydd gwynt arfaethedig ar y môr.

Disgwylir y bydd ceisiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno rhyw dros yn ystod 2002.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a pharhau i hysbysu'r Aelodau wrth i faterion ddatblygu.*

**231. RHESTR O GEISIADAU WEDI EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd eisoes) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo dan awdurdod dirprwyedig rhwng 5ed Mai 2001 a 8fed Mehefin 2001.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.

*******************